

Pennaeth Addysg/Head of Education
Ian Roberts

Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR
Lampit Street, Wrexham LL11 1AR
Ffôn/Tel: 01978 292000
www.wrecsam.gov.uk www.wrexham.gov.uk



**At: Rhieni Plant sy'n Ceisio Mynediad i
Ysgolion Uwchradd ym mis Medi 2018**

Eich Cyf/Your Ref
Ein Cyf/Our Ref
Dyddiad/Date
Gofynner am/Ask for
Rhif Union/Direct Dial
E-bost/E-mail

S2018 Secondary

11 Medi 2017

01978 298991

Admissions@wrexham.gov.uk

Annwyl Riant

Derbyniadau i Ysgol Uwchradd – Medi 2018

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol (ALI) gyhoeddi rhywfaint o wybodaeth am ei ysgolion a'i bolisïau a fydd, ynghyd â'r prospectws sydd wedi'i baratoi gan yr ysgol, yn eich helpu i ddewis i ba ysgol uwchradd yr ydych yn dymuno i'ch plentyn ei mynychu. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i chi ddewis ysgol ar gyfer eich plentyn, ond gallwch ddatgan blaenoriaeth i'r ysgol benodol yr hoffech iddynt ei mynychu. Wrth gwrs, bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod eich plentyn yn cael lle yn eich dewis ysgol. Dylai rhieni nodi dewisiadau lluosog ar gyfer ysgolion yn Wrecsam rhag ofn bydd eu cais ar gyfer un neu fwy o'r ysgolion maent yn gofyn amdanynt yn aflwyddiannus. Os ydych am ymweld ag ysgol cyn mynegi eich dewis, gallwch gysylltu â'r ysgol i wneud trefniadau neu fynychu diwrnodau/ nosweithiau agored gan ysgolion.

O 11 Medi 2017, gallwch wneud eich cais a chael mynediad i Ganllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg 2018/19, drwy gofrestru ar-lein yn www.wrecsam.gov.uk. Bydd angen cyfeiriad e-bost arnoch er mwyn cyflwyno eich cais ar-lein o'ch cyfrifiadur, eich tabledi neu'n ffon symudol, neu drwy gynchu cerdyn Llyfrgell, gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfleusterau yn cyswllt Wrecsam a Llyfrgell Wrecsam. Gallwch gyflwyno ceisiadau Cymraeg neu Saesneg a bydd yr ALI yn eu derbyn yn uniongyrchol. Gallwch gael mynediad i'ch cais a'i ddiwygio, hyd at y **dyddiad cau ar 10 Tachwedd 2017**.

A ddylai well gennych gyflwyno ffurflen gais ar bapur, galwch i mewn i Galw Wrecsam, 16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam LL11 1LG.

Bydd yr Awdurdod Derbyn yn derbyn disgyblion hyd at nifer derbyn yr ysgol (*dangosir y rhif hwn yn y rhestr ysgolion yn y 'Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam'*). **Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu prosesu ar ôl y rhai a gyflwynir erbyn 10 Tachwedd 2017**. Felly, mae'n hollbwysig eich bod yn anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau hwn oherwydd efallai y bydd llai o gyfle i chi dderbyn lle yn eich dewis ysgol os bydd eich cais yn hwyr.

Os ydych wedi mynegi blaenoriaeth i ysgol uwchradd gymunedol, bydd yr ALI yn ystyried eich cais. Fel arall, os ydych wedi mynegi blaenoriaeth i Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd St Joseph's neu Ysgol Maelor, Llannerch Banna, yna corff llywodraethu'r ysgolion hyn fydd yn ystyried eich cais, fe'ch cynghorir i gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgolion hyn i gael gwybodaeth bellach cyn cyflwyno eich cais i'r ALI.

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.*

*We welcome correspondence in Welsh.
We will respond to any correspondence in Welsh and this will not lead to any delay.*

Os ydych wedi mynegi blaenoriaeth i ysgol annibynnol neu ysgol mewn awdurdod lleol arall, dylech hefyd gysylltu â'r awdurdod derbyn priodol oherwydd gallai eu hamserlen derbyn hwy fod yn wahanol ac efallai y bydd angen i chi gwblhau ffurflenni ychwanegol.

Bydd yn cymryd rhywfaint o amser i gwblhau'r broses ddyrannu, ond cewch wybod erbyn **1 Mawrth 2018** a yw eich plentyn wedi derbyn lle yn eich dewis ysgol. Os na all yr awdurdod derbyn ddyrannu lle, bydd gennych hawl i gyflwyno sylwadau i banel apelio annibynnol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio'r cyfeiriad a roddir ar eich cais yn erbyn y cofnodion sydd gennym ar gyfer ysgol bresennol eich plentyn, ac efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth oddi wrthyich os ydynt yn wahanol. Efallai y byddwn hefyd yn gwirio cofnodion treth y cyngor. Os nad ydych wedi darparu eich cyfeirnod treth y cyngor ar eich cais efallai y byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi ddarparu prawf ychwanegol o'ch cyfeiriad.

At ddibenion dyrannu, bydd unrhyw gynnig o le mewn ysgol yn seiliedig ar ble fydd eich plentyn yn byw ar ddiwedd y cyfnod dyrannu ac mae'n amodol bod eich plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i ni a'n bod ninnau wedi derbyn eu bod wedi symud yn y cyfamser.

Cynghorir rhieni/gofalwyr y gall lle plentyn mewn ysgol gael ei dynnu yn ei ôl os y daw hi'n amlwg yn y cyfamser fod y wybodaeth a roddwyd ar eu ffurflen gais yn anwir neu'n gamarweiniol. Gall hynny olygu na fydd lle ar gael i'r plentyn yn eu hysgol agosaf bellach. Ni all yr Awdurdod Lleol dderbyn dau gais i un plentyn. Felly, rhaid i rieni gyrraedd cydgytundeb neu gael Gorchymyn Llys priodol a chyflwyno cais unigol.

Os oes anabledd ar eich plentyn a allai effeithio ar eu cynnydd a'u cyfranogiad ym mywyd yr ysgol, nodwch hyn wrth wneud eich cais a darparwch unrhyw dystiolaeth ategol, er enghraifft, llythyr gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig fel Meddyg neu Weithiwr Cymdeithasol.

Os oes gan eich plentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, bydd yr ALI yn gwneud ei orau i alluogi eich plentyn i fynychu eich dewis ysgol uwchradd, ond mae'n rhaid iddo wneud yn siŵr y gall yr ysgol fodloni anghenion eich plentyn yn llawn. Ar ôl derbyn eich cais, bydd Swyddog ALI yn ysgrifennu atoch ac efallai y bydd yn dymuno trefnu i gwrdd â chi i drafod addysg uwchradd eich plentyn.

Os byddwch yn dewis ysgol wahanol i'r ysgol uwchradd agosaf, ni fydd yr Awdurdod mewn sefyllfa i ddarparu cludiant i'ch plentyn ac felly byddwch chi'n gyfrifol am wneud a thalu am drefniadau o'r fath. Mae manylion am y Polisi Cludiant wedi'u nodi yn y 'Canllaw i Rien i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam' y Fwrdeistref Sirol.

Os bydd eich cyfeiriad cartref, neu amgylchiadau eraill yn newid cyn diwedd y cyfnod dyrannu a bennwyd gan yr ALI, neu os bydd angen unrhyw gyngor pellach arnoch, cysylltwch â'r Swyddfa Derbyniadau ar 01978 298991.

Yr eiddoch yn gywir



Ian Roberts
Pennaeth Addysg

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.*

*We welcome correspondence in Welsh.
We will respond to any correspondence in Welsh and this will not lead to any delay.*